General Optical Council

Cod Ymddygiad ar gyfer Busnesau Cofrestredig

Y Cyngor Optegol Cyffredinol
41 Harley Street, Llundain W1G 8DJ
Ffôn +44 (0)20 7580 3898
Ffacs +44 (0)20 7307 3939
E-bost goc@optical.org

www.optical.org

Rhagair

Mae'n bleser gan y GOC gyhoeddi ei God Ymddygiad newydd ar gyfer Busnesau Cofrestredig. Gobeithiwn y bydd y llyfryn hwn yn ganllaw defnyddiol i'r Cod ar gyfer y sawl a gofrestrir, cleifion a'r cyhoedd.

Rhaid i bob corff corfforaethol sydd wedi cofrestru gyda'r GOC, a'u gweithwyr cyflogedig, barchu'r Cod Ymddygiad ar bob amser. Os bydd busnes cofrestredig yn methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau a chyfrifoldebau a bennir yn y Cod, maent yn peryglu eu cofrestriad.

Daw'r Cod Ymddygiad newydd i rym ar 1 Ebrill 2010, gan ymgorffori nifer o newidiadau.

Mae newidiadau i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Busnesau Cofrestredig wedi cael eu llunio yn unol â'r gwerthoedd craidd sy'n sylfaen i waith y GOC, er mwyn sicrhau ei fod:

- Yn gymesur
- Yn atebol
- Yn gyson
- Yn dryloyw
- Yn bwrpasol

Diwygiwyd y Cod yn dilyn ymgynghori helaeth â chleifion a'r cyhoedd, aelodau cofrestredig, y cyrff optegol, a sefydliadau partner eraill. Mae manylion llawn ac adroddiad am y broses ymgynghori ar gael ar ein gwefan. Yn yr un modd â phob un o bolisïau'r GOC, rydym yn adolygu'r Cod Ymddygiad yn gyson i sicrhau ei fod yn aros yn deg, yn effeithiol ac yn gymesur.

Mae aelodau cofrestredig unigol (optometryddion, optegwyr dosbarthu a myfyrwyr optegol) yn cael eu rhwymo gan y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cofrestredig Unigol, sydd ar gael o **www.optical.org**

Dian Taylor
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Cod Ymddygiad Ar Gyfer Busnesau Cofrestredig

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio egwyddorion arfer da mewn ymddygiad proffesiynol a safonau. Mae'n nodi fframwaith ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth bob corff corfforaethol sy'n cynnal busnes fel optometrydd, neu optegydd dosbarthu neu'r ddau.[1] Rhaid i bob busnes cofrestredig weithredu yn unol â'r egwyddorion a bennir yn y Cod hwn. Bydd methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau a chyfrifoldebau a bennir yn y Cod yn peryglu cofrestriad.

Mae'r Cod yn ategu'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cofrestredig Unigol a'r cyfryw arweiniad arall a gyhoeddir gan y GOC o bryd i'w gilydd a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r rhain.

Nid yw'r Cod yn hollgynhwysol. Mae'r GOC yn disgwyl i fusnesau cofrestredig fod yn ymwybodol o arweiniad a chyngor perthnasol a gyhoeddir gan gyrff eraill ac yn benodol yr hyn a gyhoeddir gan gyrff proffesiynol a chynrychioliadol, ac i gydymffurfio â safonau lleol a chenedlaethol perthnasol o ran rheolaeth glinigol.

Nodir dyletswyddau a chyfrifoldebau optometryddion ac optegwyr dosbarthu sydd wedi eu cofrestru gyda'r GOC yng Nghod Ymddygiad y GOC ar gyfer Aelodau Cofrestredig Unigol.

Mae optometryddion ac optegwyr dosbarthu, p'un a ydynt yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig, yn gyfrifol yn unigol am weithredu ar bob adeg er lles gorau eu cleifion, ac am gyflawni arfer clinigol sy'n cydymffurfio â chymwyseddau'r GOC ar gyfer eu proffesiwn.

Gan ategu'r cyfrifoldeb unigol hwn, ond heb ei leihau mewn unrhyw fodd, mae busnesau cofrestredig sy'n cyflogi neu fel arall yn defnyddio optometryddion, optegwyr dosbarthu a gweithwyr proffesiynol clinigol eraill i gyflwyno'r gwasanaethau optegol yn chwarae rhan hanfodol mewn cynnal safonau a diogelu'r cyhoedd.

Yn benodol, mae busnesau cofrestredig yn cyflawni rôl allweddol wrth gyflenwi'r isadeiledd sy'n cefnogi arfer clinigol; darparu cefnogaeth hanfodol i recriwtio a hyfforddiant proffesiynol, gan gynnwys darparu a chyflwyno addysg a hyfforddiant parhaus; cynnal a gwella safonau mewn rheolaeth glinigol a chorfforaethol; a chreu amgylchedd gweithio priodol lle gall ymarferwyr fwynhau rhyddid clinigol.

Y Cod

Mae busnesau cofrestredig yn chwarae rhan annatod mewn darparu gwasanaethau a chynhyrchion optegol i'r cyhoedd. Rhaid i gleifion, defnyddwyr a gweithwyr proffesiynol allu ymddiried mewn busnesau cofrestredig i gynnal a chefnogi safon dda o arfer a gofal clinigol.

Er mwyn cyfiawnhau'r ymddiriedaeth hon, bydd busnes cofrestredig yn cymryd camau rhesymol a chymesur i wneud y canlynol:

1. Sicrhau bod pob person sy'n ymgymryd â gweithgareddau a reoleiddir gan y Ddeddf Optegwyr yn gwneud hynny yn unol â'r Ddeddf;
2. Ei gwneud yn ofynnol fel un o amodau cyflogaeth neu ddefnydd bod yr aelodau cofrestredig unigol hynny a gyflogir neu a ddefnyddir fel arall ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaethau optegol yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y GOC ar gyfer Aelodau Cofrestredig Unigol;
3. Peidio ag ymddwyn yn fwriadol mewn ffordd a allai gyfrannu at neu achosi toriad y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cofrestredig Unigol gan unrhyw aelod cofrestredig unigol a gyflogir neu a ddefnyddir fel arall ganddo i ddarparu gwasanaethau optegol;
4. Sicrhau bod aelodau cofrestredig unigol bob yn gallu ymarfer eu barn broffesiynol yn rhydd er lles gorau cleifion;
5. Darparu system i gadw cofnodion cleifion yn gywir;
6. Parchu a diogelu gwybodaeth gyfrinachol i gleifion ac i weithwyr cyflogedig fel ei gilydd yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol;
7. Sicrhau bod hysbysebion neu gyhoeddusrwydd yn cydymffurfio â chodau Ymddygiad hysbysebu priodol;
8. Darparu mecanweithiau i alluogi'r sawl sy'n gweithio i'r busnes cofrestredig neu fel arall yn cael ei ddefnyddio ganddo i godi pryderon am risgiau i gleifion;
9. Amddiffyn cleifion os oes ganddo reswm i gredu efallai nad yw aelodau cofrestredig unigol neu weithiwr iechyd proffesiynol arall yn addas i ymarfer, yn addas i ddilyn hyfforddiant, neu os yw'n fusnes cofrestredig yn addas i gynnal busnes fel optometrydd, optegydd dosbarthu neu'r ddau;[2]
10. Sicrhau bod y meini prawf a ymgorfforir yn y cod hwn yn cael eu cymhwyso fel y bo'n briodol i ymarferwyr meddygol cofrestredig mewn perthynas â'r GMC a chan unrhyw godau ac arweiniad perthnasol eraill;
11. Sicrhau nad yw arferion ariannol a masnachol yn cyfaddawdu diogelwch cleifion.

Troednodiadau

1. Mae corff corfforaethol yn cynnwys cwmnïau cyfyngedig (cyhoeddus a phreifat), partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig ac, yn yr Alban, partneriaethau. Nid yw mathau eraill o fusnes fel partneriaethau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac unig fasnachwyr yn gyrff corfforaethol ac ni allant gofrestru'n fusnesau cofrestredig gyda'r GOC.

2. Os oes gan fusnes cofrestredig wybodaeth bwysig amdanynt hwy eu hunain, gweithwyr iechyd proffesiynol neu gyrff eraill, a allai olygu nad oes ganddynt y sgiliau, yr wybodaeth, y cymeriad neu'r iechyd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol, neu na ellir ymddiried ynddynt i weithredu'n gyfreithiol, rhaid iddynt weithredu'n gyflym i amddiffyn cleifion. Yn y lle cyntaf byddai hyn fel arfer yn golygu cymryd camau drwy strwythur rheoli mewnol y busnes neu lle bo'n briodol i'r corff gofal sylfaenol lleol.

Fodd bynnag, dylai busnesau cofrestredig hysbysu'r GOC:

- Os na fyddai gweithredu ar lefel leol yn ymarferol;
- Os oes gweithredu ar lefel leol wedi methu;
- Os yw'r broblem mor ddifrifol ei bod yn amlwg bod angen sylw'r GOC; neu
- Os oes ofn fictimeiddio neu gelu ffeithiau.

Dylai busnes cofrestredig gydweithredu ag unrhyw archwiliad neu ymchwiliad ffurfiol ynghylch addasrwydd aelod cofrestredig unigol, neu weithiwr iechyd proffesiynol arall, i ymarfer, eu haddasrwydd i ddilyn hyfforddiant fel optometrydd neu optegydd dosbarthu, neu addasrwydd busnes cofrestredig i gynnal busnes fel optometrydd, optegydd dosbarthu, neu'r ddau.

Geirfa

Busnes cofrestredig: Mae busnes cofrestredig yn gorff corfforaethol sydd wedi cofrestru gyda'r GOC.

Caniatâd claf: Pan fydd claf yn caniatáu i weithred neu driniaeth benodol fynd yn ei blaen.

Cofrestru: Rhaid i optometryddion ac optegwyr dosbarthu sy'n dymuno ymarfer yn y DU fod wedi eu cofrestru gyda'r GOC.

Corff corfforaethol: Mae corff corfforaethol yn gwmni cyfyngedig neu'n bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi ei (h)ymgorffori â Thŷ'r Cwmnïau. Mae cyrff corfforaethol sydd wedi cofrestru â'r GOC yn cael eu galw'n fusnesau cofrestredig.

Cyrff proffesiynol a chynrychioliadol: Y term cyfunol a ddefnyddir i gyfeirio at y sefydliadau sy'n cynrychioli ac yn cefnogi'r proffesiynau optegol yn y DU. Maent yn cynnwys Cymdeithas yr Optometryddion, Cymdeithas Optegwyr Dosbarthu Prydain, Coleg yr Optometryddion a'r Ffederasiwn Optegwyr Offthalmeg a Dosbarthu.

Gofal sylfaenol: Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu a'r sawl sy'n gweithio gyda hwy gan gynnwys optegwyr.

Optegydd: Term cyfunol a ddefnyddir yn aml i gyfeirio at optometryddion ac optegwyr dosbarthu.

Optometrydd: Optometrydd sy'n profi golwg, a gall hefyd osod a chyflenwi sbectol neu lensys cyffwrdd. Gyda hyfforddiant pellach, gallant gymhwyso i ragnodi rhai cyffuriau ar gyfer anhwylderau'r llygaid.

Rheolaeth glinigol: Y system i sefydliadau gofal iechyd fod yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau'n gyson a diogelu safonau gofal uchel.